

Teitl: Title:	Datganiad Ymwybyddiaeth Amgylcheddol yn y Blynnyddoedd Cynnar - Meithrinfa Toybox
Fersiwn: Version	2
I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol? Who does this Policy Relate to?	Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion) Myfyrwyr

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link:	Asesiad effaith / Impact assessment
<i>Effaith ar y Gymraeg</i> <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.</i>	<i>Welsh Language Impact</i> <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.</i>

Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

Perchennog y Ddogfen: Document Owner:	Rheolwr y Feithrinfa /Nursery Manager		
Ymgynghoriad/ Consultation:	Staff y Feithrinfa		
Dyddiad Cymeradwyo / Date Approved	Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group		-
	Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:		31/01/2025
	Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees:	Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee:	-
		Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee	-
		Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee:	-
	Corff Llywodraethu / Governing Body:		-
Dyddiad Adolygu: Review Date:	31/01/2028		

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r [Efurflen Cais Cyfieithu](#)
Send approved document for Translation using the [Translation Request Form](#)

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

1. Polisi Ymwybyddiaeth yn y Blynnyddoedd Cynnar - Meithrinfa Toybox

- 1.1. Ym Meithrinfa Toybox rydym yn dymuno cefnogi plant i ddysgu am arferion cynaliadwy a meithrin parch a gofal am yr amgylchedd byw ac anfyw.
- 1.2. Mae plant yn gallu datblygu ymagweddau a gwerthoedd cadarnhaol am arferion cynaliadwy gan archwilio datrysiadau i faterion amgylcheddol, dysgu am y byd o'u cwmpas a sut i'w amddiffyn a gwylio oedolion yn modelu arferion cynaliadwy.
- 1.3. Rydym yn hyrwyddo cwricwlwm cyfannol, agored sy'n archwilio syniadau ac arferion ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol ac yn helpu plant i ddeall y rhyngddibyniaeth rhwng pobl a'r amgylchedd drwy:
 - 1.3.1. Helpu plant i archwilio natur drwy gelf a chwarae
 - 1.3.2. Cefnogi plant i brofi'r amgylchedd naturiol trwy ddeunyddiau naturiol fel pren, carreg, tywod a deunyddiau wedi'u hailgylchu
 - 1.3.3. Cefnogi'r amgylchedd drwy ddysgu sut i dyfu a meithrin planhigion yn yr ardd feithrinfa a darganfod popeth am y gylchred fwyd drwy dyfu, cynaeafu a choginio bwyd ar gyfer ein bwydlen feithrinfa.
 - 1.3.4. Helpu plant i ddysgu am gadwraeth dŵr, effeithlonrwydd ynni a lleihau gwastraff trwy weithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae a rhyngweithio ag oedolion
 - 1.3.5. Mynd ar deithiau cerdded natur a dysgu am blanhigion maen nhw'n eu gweld yn yr ardal leol
 - 1.3.6. Annog rhieni a phlant i gerdded i'r feithrinfa'n rheolaidd i godi ymwybyddiaeth o ofalu am y blaned
 - 1.3.7. Datblygu ardal ailgylchu ac annog plant i rannu ethos ailgylchu yn amgylchedd y cartref.
- 1.4. Fel meithrinfa byddwn yn ymgorffori cynaliadwyedd ym mhob agwedd ar y gweithrediadau gan gynnwys:
 - 1.4.1. Ailgylchu deunyddiau ar gyfer gweithgareddau celf a chreadigol ac annog rhieni i ddod â'u deunyddiau ailgylchu i mewn at yr un defnydd
 - 1.4.2. Pan fydd plant yn mynd â modelau adref o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu, sicrhau bod rhieni'n ailgylchu'r deunyddiau hyn os nad ydyn nhw'n eu cadw
 - 1.4.3. Ystyried ein hól troed carbon wrth brynu deunyddiau
 - 1.4.4. Siopa'n lleol lle bo'n bosibl
 - 1.4.5. Diffodd offer a goleuadau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio
 - 1.4.6. Defnyddio bylbiau golau arbed ynni
 - 1.4.7. Peidio â gadael unrhyw gyfarpar mewn modd segur
 - 1.4.8. Datgysylltu plwg pob cyfarpar ar ôl gorffen ei ddefnyddio/ar ddiwedd y dydd
 - 1.4.9. Defnyddio cylchoedd golchi ar y peiriant golchi, sy'n arbed ynni
 - 1.4.10. Hongian dillad allan i sychu neu ddefnyddio ceffylau dillad yn hytrach na sychwyr dillad lle bo modd
 - 1.4.11. Compostio gwastraff bwyd
 - 1.4.12. Ymgorffori strategaethau sy'n ddoeth o ran dŵr fel sicrhau bod tapiau wedi'u diffodd a gollyngiadau wedi'u trwsio
 - 1.4.13. Defnyddio casgenni dŵr glaw ar gyfer chwarae dŵr yn yr awyr agored
 - 1.4.14. Ailgylchu dŵr o'r man chwarae dŵr i ddyfrio planhigion y tu allan
 - 1.4.15. Gan ddefnyddio bwyd rydyn ni wedi'i dyfu mewn prydau bwyd meithrinfa.
- 1.5. Bydd gweithio gyda'n holl rieni a phartneriaid yn helpu ein hamgylchedd i fod yn fwy cynaliadwy a'i wneud yn lle gwell i genedlaethau'r dyfodol dyfu i fyny ynddo.
- 1.6. Rydym yn asesu effaith ein meithrinfa ar yr amgylchedd yn rheolaidd ac yn rhoi gweithdrefnau ar waith i wrthweithio'r effaith hon.
- 1.7. Er mwyn annog plant i beidio â gwastraffu bwyd na chwarae gyda bwyd amser bwyd, rydym yn annog peidio â defnyddio bwyd fel deunydd chwarae; yn lle hynny rydym yn annog gweithgareddau sy'n cynnwys paratoi a blasu gwahanol fathau o fwyd.